Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email s4c@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

14/07/2008 Gwahoddiad i Dendr

Gwasanaeth Dysgwyr Cymraeg ar gyfer S4C.
Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 14eg, 2008
Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 12.00 canol dydd Awst 12fed, 2008.

Tendr: Gwasanaeth Dysgwyr i S4C

1.0 Cyflwyniad

Mae S4C yn gwahodd tendrau ar gyfer gwasanaeth cynhwysfawr i ddysgwyr Cymraeg, a fydd yn apelio at ddysgwyr o bob oed, gallu a diddordeb.

Dros y blynyddoedd mae arlwy S4C ar gyfer dysgwyr Cymraeg ymhlith y gynulleidfa wedi bod yn amrywiol. Hyd at 2004, rhaglenni teledu wedi ei teilwro'n bwrpasol i gynorthwyo'r gwylwyr i ddysgu Cymraeg oedd yn cael eu comisiynu gan S4C. Yn fwy diweddar mae S4C wedi datblygu gwasanaeth ar-lein yn bennaf ar gyfer dysgwyr, gydag elfennau ychwanegol ar y gwasanaeth testun a chyhoeddiad cylchgrawn chwarterol. Y nod yw cynnal a datblygu ymhellach y safonau uchel sydd wedi'u sefydlu eisoes.

'Rydym yn chwilio am syniadau dyfeisgar, gwreiddiol ac amrywiol o gynnig cefnogaeth i ddysgwyr, sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag yn estyniad o'r cynnwys a ddarlledir ar S4C.

Mae Strategaeth S4C yn rhoi pwyslais mawr ar greu gwasanaeth o safon eithriadol mewn partneriaeth â darparwyr sydd â'u bryd ar gyflawni rhagoriaeth greadigol. Yn unol â pholisi S4C bydd y cytundeb ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig o dan broses dendr agored a chystadleuol.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r camau yn y broses dendr.

2.0 **Disgrifiad o'r ddarpariaeth i dendro**

Mae S4C yn anelu at ddatblygu adnodd dyfeisgar, adloniannol ac atyniadol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Mae S4C yn sylweddoli pwysigrwydd y gynulleidfa darged hon, er yn cydnabod yr ystod eang 0 allu ieithyddol, diddordebau, oedran a chymhelliad. Y nod yw denu dysgwyr at S4C, drwy gynnig gwasanaeth cynhwysfawr iddynt sydd yn arbrofol a chynhyrfus, ac yn y broses eu gwneud yn llwyr ymwybodol, yn eu cynorthwyo i ddeall a mwynhau'r profiad o wylio ar S4C.

Dylai'r gwasanaeth gynnig pecyn estynedig o wybodaeth ac ymarferion sy'n gysylltiedig ag yn cydblethu â'r rhaglenni a ddarlledir gan S4C. Disgwylir i'r gwasanaeth gynnig cefnogaeth i wylwyr er mwyn iddynt allu mwynhau darpariaeth rhaglenni S4C a rhoi agoriad iddynt i'r gwasanaethau

Dylai'r ddarpariaeth fod yn gyson â 5 lefel hyfedredd cydnabyddedig CBAC ar gyfer Cymraeg ail iaith sef Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Rhugl. Dylai roi cyfle i ddysgwyr ddarganfod, ymarfer a gwella eu Cymraeg.

Disgwylir i'r ddarpariaeth fod o safon eithriadol, wedi'i gyflwyno'n broffesiynol fel bo'r elfennau o ddarllen a gwrando yn ogystal â'r ymarferion yn hwyliog, yn atyniadol a diddorol ar gyfer dysgwyr o bob lefel gallu.

Dylai'r ddarpariaeth hefyd gynnwys gweithgareddau marchnata traws-gyfrwng a mentrau marchnata uniongyrchol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r adnodd a chyflwyno dysgwyr Cymraeg newydd i'r gwasanaeth.

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth dwyieithog yma am gyfnod o dair blynedd o Ionawr 1af 2009 hyd at Ragfyr 31ain 2011, gydag opsiwn i ymestyn am 12 mis ychwanegol.

3.0 **Anghenion y gwasanaeth**

3.1 **Cynnwys a golygyddol**

Disgwylir i'r cynigion amlinellu syniadau er mwyn ateb gofynion y gwasanaeth a amlinellir yn Adran 2, gan blethu'r gwasanaeth i ddysgwyr gyda'r allbwn rhaglenni, ac amlinellu'r potensial i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Dylai'r gwasanaeth fod yn atodol i, a chysylltu'n uniongyrchol â, deunydd addas ac amrywiol yn y rhaglenni a ddarlledir. Bydd disgwyl i'r Cwmni buddugol weithio gyda S4C i deilwra'r gwasanaeth a gyda'r darparwyr cynnwys er mwyn darganfod y cynnyrch mwya' addas ar gyfer y gynulleidfa darged. Disgwylir cyfeiriadau at ddeunydd rhaglenni, cyfranwyr yn y rhaglenni, digwyddiadau a phynciau dan sylw yn y gwasanaeth rhaglenni. Bydd disgwyl i'r gwasanaeth wneud defnydd o glipiau a deunydd yn gysylltiedig â'r cynnwys a gomisiynir gan S4C.

Ni fydd y cytundeb yn cynnwys darparu rhaglenni teledu gwreiddiol, er ein bod yn rhagweld y bydd rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol yn cael ei gynhyrchu.

Bydd modd sefydlu fframwaith gyfathrebu gyda S4C i gynnwys manylion am raglenni yn cynhyrchu, amserlen ddarlledu ac unrhyw wybodaeth o ddydd i ddydd ac sydd ei angen o flaenllaw.

Dylid hefyd ystyried gwasanaethau atodol addas er mwyn ehangu potensial y prif wasanaeth ac i gynyddu defnydd a'r elfennau rhyngweithiol. Gellir ymestyn y ddarpariaeth i fod ar wasanaeth Testun Digidol (ar gael ar Sky a Freeview) a chyhoeddiadau addas neu gyfrwng electroneg.

Mae'r gwasanaethau isdeitlo yn y Gymraeg a'r Saesneg yn adnoddau pwysig i ddysgwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi ei gynnwys yn y tendr yma.

3.2 **Gweithgareddau cyfathrebu a marchnata**

Mae ystod y cytundeb yn cynnwys marchnata'r gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys marchnata ar draws bob cyfrwng a marchnata'n uniongyrchol i'r gynulleidfa darged fel unigolion neu'n grwpiau. Disgwylir i'r cwmni gyflwyno cynllun marchnata sy'n cynnwys nodau penodol.

Byddai hefyd yn cynnwys datblygu rhwydwaith dysgwyr Cymraeg S4C ar gyfer unigolion, grwpiau a dalwyr eraill, a bod yr wybodaeth yma ar gael i farchnata'r gwasanaeth ymhellach.

Byddai'n fanteisiol cryfhau'r cydweithredu gyda dalwyr eraill, sefydliadau megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru – Addysg ayyb. Yn ogystal, gall hyn ymestyn i bartneriaethau er mwyn datblygu cynnwys.

Dylai'r gwasanaeth hefyd dargedu'r darparwyr Cymraeg i Oedolion yn uniongyrchol ac annog holl ddysgwyr Cymraeg i ymweld â'r gwefan, cymryd rhan a gwneud defnydd llawn o'r gwasanaethau. Gall y gweithgareddau ymestyn i drefnu digwyddiadau a gweithdai (e.e. mewn ysgolion Cymraeg ail iaith).

3.3 **Canllawiau a pholisïau**

Bydd disgwyl i'r gwasanaethau gydymffurfio â chanllawiau a pholisïau perthnasol S4C sydd ar gael ar wefan Cynhyrchu S4C, a'r canlynol:

'Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog' a gyhoeddwyd gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/3962.pdf

Gofynion safoni hyfedredd – dylai'r defnydd o lefelau hyfedredd ar y safle fod yn gyson â fframwaith lefelau cyrhaeddiad Cymraeg Ail Iaith Cyd Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC). Ceir mwy o wybodaeth a chanllawiau ar eu gwefan.
http://www.cbac.co.uk/index.php?subject=116&level=15&imageField2.x=42&imageField2.y=6

Awgrymir hefyd cysylltu gydag Uned Technoleg Bwrdd yr Iaith am ragor o fanylion wrth baratoi'r cynnig.

3.4 **Manylion technegol eraill i'w ystyried**

Dylid ystyried llwyfannau addas ar gyfer dangos y gwasanaeth.

Dylai'r cynnwys fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac ar gael i bawb gan gynnwys pobl sydd â nam gweledol neu glywedol, ac yn ateb eu hanghenion yn y ddwy iaith. Dylid sicrhau hyn gan dargedu dysgwyr yn benodol.

Lle bo gwefannau yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwasanaeth, mae S4C yn cydnabod y safonau a amlinellir yng Nghanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We 1.0' (Checklist for Web Content Accessibility Guidelines 1.0) a gallwch eu gweld ar wefan W3C: http://www.w3.org/TR/WAI-WEBCONTENT/full-checklist.html

Dylid darparu gwybodaeth a chymorth i hwyluso defnydd o'r safle, ac unrhyw ddolenni cysylltiol.

Dylai'r gwasanaeth gael ei gynllunio i gynnwys deunydd digonol a chynnwys addas ar gyfer defnyddwyr ar bob lefel a phob grŵp oedran.

Dylai gwybodaeth am lefelau cyrhaeddiad ddefnyddio diffiniad safonol CBAC (WJEC). Dylai unrhyw brawf lefel cyrhaeddiad arwain at ganlyniad sy'n gyson â lefelau cyrhaeddiad CBAC. http://www.wjec.co.uk/index.php?subject=116&level=15

Dylai dimensiwn nodweddion ieithyddol ar gyfer geirfa, ffurfiau berf a chystrawen brawddegau, fod yn addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac yn gyson ar draws y gwasanaeth. Dylai'r cynnwys ar y gwasanaethau adlewyrchu'r amrywiaeth ieithyddol rhwng De a Gogledd Cymru, fel bod y profiad dysgu yn gyson â dosbarthiadau'r dysgwyr Cymraeg neu gyda'r iaith a ddefnyddir yn eu cymunedau lleol.

Dylid egluro yn eich cynnig sut y byddwch yn cyflawni'r gofynion hyn.

3.5 **Defnyddioldeb ac adborth**

Bydd y cytundeb yn gofyn am gasglu a rhannu gyda S4C ymchwil a data arall yn ymwneud â nifer y defnyddwyr. Gall hyn gynnwys asesiad o'r defnydd o'r adnodd i ddysgwyr Cymraeg, a'i gasglu ar sail a ddiffinnir gan S4C.

Yn ychwanegol, gall S4C ofyn am wybodaeth ac adborth a hynny drwy ddefnyddio holiaduron neu ddulliau cyffelyb.

4.0 **Manylion pellach**

4.1 **Tâl**

Ystyrir mai gwerth y gwasanaeth fydd uchafswm o £300,000 y flwyddyn, i gynnwys yr holl gostau.

4.2 **Ymchwil cynulleidfa**

Amcangyfrif fod oddeutu 70,000 o oedolion yng Nghymru unai'n ddysgwyr Cymraeg ar hyn o bryd neu wedi bod yn y gorffennol.

Mae ffigyrau'r Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amcangyfrif bod 20,000 o oedolion yn cofrestru'n flynyddol ar gyfer cyrsiau dysgu Cymraeg - a bod hyn wedi cynyddu'n

raddol ers 2001.

Mae Ystadegau Addysg yn dangos bod oddeutu 10,000 o blant yn cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith. O'r rhain gellir dyfalu fod tua 3000 yn dysgu i fod yn rhugl.

4.3 **Gwybodaeth cefndir S4C**

Gwasanaeth darlledu cyhoeddus yw S4C, sy'n darlledu dros 100 awr o raglenni Cymraeg pob wythnos gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, digwyddiadau byw, drama, newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni plant. Ar hyn o bryd, mae S4C yn darlledu S4C a goreuon Channel 4 ar y llwyfan analog, ac S4C Digidol ac S4C 2 ar y llwyfan digidol ("gwasanaeth teledu S4C"). Mae S4C hefyd yn cyd-ddarlledu'r rhan fwyaf o'r cynnwys ac yn cynnig gwasanaethau ychwanegol ar y we drwy wefan S4C.

Mae gwasanaethau teledu S4C ar gael ar deledu daearol, cebl, a lloeren, yn ogystal â drwy wefan S4C. Mae S4C yn gyson yn adolygu ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig gwasanaethau S4C ar lwyfannau eraill, ac ar lwyfannau newydd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Am wybodaeth gefndirol ar S4C yn unig, gweler Adroddiad Blynyddol 2007 (ar gael ar wefan S4C (www.s4c.co.uk) neu drwy gysylltu â:

Gwifren Gwylwyr
S4C
Parc T Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF14 5DU
Rhif ffôn: 0870 600 4141

4.4 **Gwybodaeth arall am y tendr**

4.4.1 Mae manylion yr amserlen dendr wedi eu nodi yn Adran 6

4.4.2 Mae'r gwahoddiad i dendr yn ddarostyngedig i'r **Nodiadau Cytundebol a Chyfreithiol** yn **Atodlen B** ac yn agored i bob cwmni sy'n credu y gallant gwrdd â gofynion a chriteria'r hyn a gynhwysir yn y gwahoddiad. Yn benodol nid yw'r gwahoddiad wedi ei gyfyngu i gwmnïau o faint arbennig nag o unrhyw ardal(oedd) daearyddol arbennig. Gall cwmnïau heb unrhyw brofiad darlledu blaenorol ond sydd ag arbenigedd perthnasol (e.e. o drefnu cyrsiau i ddysgwyr Cymraeg neu a phrofiad o greu cynnyrch aml-lwyfan neu gwmnïau adnoddau gymwysiadau rhyngweithiol) fod yn rhan o gais.

4.4.3 Ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i gynnig y tendr i unrhyw gwmni ac nid oes unrhyw beth yn y ddogfen hon sy'n gorfodi S4C i wneud hynny. Yn benodol ond heb gyfyngiad, bydd gan S4C y dewis o gynnig y cytundeb i naill ai i un cwmni neu i rannu'r cytundeb rhwng dau neu fwy o'r cwmnïau, neu i beidio â rhoi'r tendr a'r comisiwn i unrhyw gwmni, ac i gynhyrchu'r gwasanaethau yn fewnol pe bai'n anfodlon ag ansawdd y ceisiadau neu os na fydd ymateb digonol i'r gwahoddiad hwn i dendro.

4.4.4 Bydd angen i bob cwmni fanylu os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannol rhwng yr unigolion sydd ynghlwm â'r cais gyda staff S4C er mwyn galluogi S4C i aseinio staff heb unrhyw gysylltiadau personol â'r cais i'r broses dendr.

5.0 **Gwybodaeth i'w gyflwyno**

Gofynnwn i chi gyflwyno'r canlynol gan ddilyn y penawdau isod ac yn yr un drefn. Nid oes ffurf safonol ar gyfer cyflwyno gweddill y manylion ond anogir cwmnïau i osgoi gwario ar gynhyrchu cyflwyniadau gor-liwgar a drud.

5.1 Disgrifiad manwl o'r ddarpariaeth a gynigir sy'n ymateb i'r anghenion a osodir yn Adran 2 a 3 o'r gwahoddiad i dendro yma. Bydd rhyddid i chi ddewis ar ba ffurf bynnag y byddwch yn cyfleu'r weledigaeth o ran cynnwys, golwg, iaith, arddull, gwedd a theimlad y cynnwys, ac yn cyfarfod y nod o ragoriaeth greadigol.

5.2 Enwau personél allweddol

a) Cynhyrchydd/wyr neu Reolwr Uwch a'r prif gyswllt gydag S4C
b) Unigolion allweddol a chyfrifoldeb am y cynnwys a rheolaeth dydd i ddydd o'r gwasanaeth
c) Ymgynghorwyr allweddol
ch) Unrhyw unigolion eraill yr ydych yn ystyried i fod yn allweddol i'r gwasanaeth

5.3 Cynllun marchnata ar gyfer y gwasanaeth.

5.4 Sut y caiff y berthynas rhwng y cwmni ac S4C, a gyda'r cwmniau cynhyrchu, ei reoli er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posib o gydweithio.

5.5 Sut y bydd y cwmni yn rheoli brand S4C.

5.6 Cyllideb yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a'r manylion yn **Atodlen A** sef y **Nodiadau Ariannol**. Noder os yw'r cais am bris uwch, dylid nodi'n glir y ddarpariaeth a gynigir am yr amcan bris a nodir yn **Atodlen A**, ond gan restru cost y manteision ychwanegol ar wahân.

5.7 Manylion bras am drefniadau hyfforddi yn gysylltiedig â'r gwasanaeth.

5.8 Unrhyw sylwadau cyfreithiol yn deillio o'r **Nodiadau Cytundebol a Chyfreithiol** yn **Atodlen B** a'r cytundeb safonol (i'w gyhoeddi ar y safle tendro cynhyrchu ar y 25ain o Orffennaf 2008).

5.9 Unrhyw ffactorau neu fanteision ychwanegol.

6. **Camau ac amserlen y broses dendro**

Fe ofynnir i chi anfon eich cais drwy e-bost (gan gynnwys y gyllideb) i:
E-bost: tendr@s4c.co.uk
I gyrraedd erbyn **12:00** ganol dydd ar y **12fed o Awst 2008**.

NI DDERBYNNIR UNRHYW GYNIGION A DDAW I LAW WEDI'R DYDDIAD A'R AMSER CAU.

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw gynigion sydd yn mynd ar goll, yn cael eu hoedi neu'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb y cwmni yw sicrhau fod ei gais (ynghyd ag unrhyw atodiadau perthnasol) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff ei gyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Ni ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir i bob cwmni i holi am gadarnhad o dderbyn y cais.

Bydd y panel yn dewis rhestr fer o geisiadau ac yn hysbysu'r cwmnïau ar y rhestr fer drwy alwad ffôn cyn diwedd y dydd ar **y 14eg o Awst 2008,** yn eu gwahodd i gyfweliad. Bydd S4C yn hysbysu'r cwmnïau na fu'n llwyddiannus ar y ffôn erbyn **y 15fed o Awst, 2008**

Rhagwelir y cynhelir y cyfweliadau ar y **19eg** neu'r **20fed o Awst 2008** yng Nghaerdydd.

Os oes yna gwmni llwyddiannus (ac yn ddarostyngedig i gytundeb), bydd S4C yn cysylltu gyda'r cwmni drwy alwad ffôn erbyn yr **22ain o Awst ,2008** fan hwyraf, a gyda'r cwmnïau eraill a gafodd eu cyfweld i'w hysbysu na fuont yn llwyddiannus ar yr un diwrnod . Os na fu neb yn llwyddiannus, bydd S4C yn hysbysu'r holl gwmniau a gafodd eu cyfweld o hyn ar yr un dyddiad.

Penodir cyfnod o fis er mwyn trafod materion cyllido a chytundebol ac mae disgwyl y bydd y cytundeb terfynol i'w arwyddo cyn diwedd mis Medi 2008.

Yn ddarostyngedig i gytundeb, bydd y cyfnod cyn cynhyrchu yn weithredol er mwyn lansio'r gwasanaeth newydd ar **Ionawr 6ed, 2009.**

7. Ffactorau gwerthuso

Ystyrir y ceisiadau gan banel o swyddogion S4C. Y panel hwn fydd yn ystyried yr holl fanylion fydd yn cael ei gyflwyno yn y cais ac yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran y tendr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun.

Seilir y penderfyniad terfynol ar y tendr llwyddiannus (os o gwbl) ar y criteria canlynol ac mae uchafswm y sgôr yn erbyn pob ffactor wedi'i nodi isod:

Criteria Asesu	Uchafswm y sgôr
Potensial y cais a'r gallu i ymateb i holl ofynion y cais.	40
Profiad a gallu'r cwmni i gynhyrchu a chyfleu gwasanaeth o safon o'r math yma.	25
Gwerth am arian i S4C – i gynnwys asesiad o werth y cais, ei effaith a'i botensial.	15
Cynllun marchnata	10
Elfennau busnes a gallu'r cwmni i gyfleu'r cytundeb.	10

8 Ymholiadau pellach neu gwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn cysylltiad â'r broses sydd ynghlwm yna dylid danfon e-bost at S4C at tendr@s4c.co.uk yn y lle cyntaf, a bydd cynrychiolydd ar ran S4C yn cysylltu â chi. Er mwyn sicrhau tegwch i bob cwmni mae'n bosib y bydd atebion i gwestiynau cyffredinol yn cael eu rhoi ar wefan Gynhyrchu neu Tendrau S4C ond ni fydd ffynhonnell yr ymholiad yn cael ei ddatgelu.

Rhestr yr Atodlenni

Atodlen A Nodiadau Ariannol
Atodlen B Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol.

ATODLEN A

Nodiadau Ariannol

Mae S4C yn disgwyl i bob cais gynnwys cyllideb sy'n amlinellu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth.

Dylid paratoi'r cais ar y rhagdybiaethau canlynol:

1. Dylid cynnwys y gost o gynnal s staffio'r gwasanaeth am gyfnod o 3 blynedd, a'r opsiwn am 4ydd flwyddyn ychwanegol.

2. Dylid cynnwys unrhyw gostau sefydlu, lle'n berthnasol.

3. Os yw'r cwmni'n creu deunydd pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth, yna bydd angen sicrhau bod y gost yma yn gynwysedig, a bod y deunydd yn cael ei glirio ym mhob cyfrwng yn fyd eang heb dâl pellach. Lle nad yw'n bosib sicrhau hyn yna dylid nodi unrhyw gyfyngiadau yn y cais / manylion y gyllideb.

4. Lle defnyddir deunydd gan gyflenwyr rhaglenni i S4C neu trydedd partion eraill, yna cyfrifoldeb y cwmni fydd sicrhau bod y deunydd wedi ei glirio ar y sail bob cyfrwng yn fyd eang. Dylid cynnwys y gost mewn cysylltiad â defnyddio clipiau a chynnwys e.e. cliriadau unrhyw ddeunydd fideo neu sain, archif, sgriptiau, deunydd wedi'i gyhoeddi ayyb. Eto, dylid nodi unrhyw gyfyngiadau yn y cais / manylion y gyllideb.

5. Dylid cynnwys cost unrhyw drwyddedau cerddorol ar gyfer y gwasanaeth llawn.

6. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio'n llawn â Chanllawiau Technegol S4C a'r gost o dderbyn unrhyw ddeunydd oddiwrth neu i gyrraedd S4C neu'r cwmni cynhyrchu.

7. Dylid cynnwys cost y gwaith o ddylunio a chreu graffeg wrth ddatblygu'r gwasanaethau. Hefyd y gost o ddatblygu neu ddiweddaru'r gwasanaethau o dro i dro, yn ystod y cyfnod y cytundeb.

8. Dylid cynnwys unrhyw gostau cysylltiedig â'r cynllun marchnata a ddarperir.

9. Y gost o yswirio'r holl waith ac yn gysylltiedig â chynhyrchu gwreiddiol neu weithgareddau marchnata.

10. Unrhyw ffi rheoli a chostau gweinyddol sydd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Bydd pob hawlfraint ac unrhyw hawl arall i'r gwasanaeth neu gynnyrch y gwasanaethau yn eiddo i S4C. Bydd disgwyl i'r cwmni llwyddiannus (os o gwbl) gynnwys y gost o sicrhau ac aseinio'r hawliau i S4C, yn eu cyllideb.

Bydd angen i bob cais fanylu os oes posibilrwydd o dderbyn arian neu gymorth ariannol o unrhyw ffynhonnell arall, h.y. os yw'r gyllideb wedi ei pharatoi ar y rhagdybiaeth o dderbyn unrhyw grant.

Noder os gwelwch yn dda mai mater i S4C yn unig yw trefnu, sicrhau neu dderbyn nawdd neu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni ac ni ddylai unrhyw gwmni gyflwyno cais ar y sail neu'r ddamcaniaeth y bydd modd iddo sicrhau ffynhonnell

ychwanegol o arian (uwchlaw pris y cytundeb a gymeradwyir gan S4C) drwy sicrhau nawdd neu werthu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni.

Mae S4C yn amcangyfrif mai'r gost o gynhyrchu a chyfleu'r ddarpariaeth i S4C yw uchafswm o **£300,000 y flwyddyn.** Rhagwelir y bydd y prif elfennau yn cael eu darparu fel gwasanaethau aml-lwyfan, gydag o leiaf ¾ o gyfanswm y gyllideb yn berthnasol i'r elfennau hyn. Bydd unrhyw wefan yn cael ei lywyddu gan S4C, ac felly ni ddylid ystyried cost y gweinydd yn y gyllideb.

Bydd S4C yn croesawu ceisiadau sy'n is na'r amcan bris ond ni fydd dyletswydd ar S4C i gynnig y tendr i'r cais sy'n cynnig y pris isaf. Bydd S4C hefyd yn rhoi ystyriaeth deg i unrhyw gais sy'n cyfateb i'r amcan bris neu hyd yn oed yn uwch na'r amcan bris cyn belled â bod y fath gais yn cynnwys manteision ychwanegol o ran ansawdd a natur y gwasanaeth. Noder os yw'r cais am bris uwch, dylid nodi'n glir y ddarpariaeth a gynigir am yr amcan bris a nodir uchod, ond gan restru cost y manteision ychwanegol ar wahân.

ATODLEN B

Nodiadau Cyfreithiol a Chytundebol.

Bydd y cytundeb am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, gyda'r opsiwn i S4C ymestyn am flwyddyn ychwanegol ar yr un telerau. Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ôl blwyddyn ac yn cadw'r hawl i ddod a'r cytundeb i ben ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, yn dilyn adolygiad o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau golygyddol neu ariannol rheolaidd sydd yn cael eu cynnwys yn y cytundeb.

Ni fydd Cod Ymarfer S4C yn weithredol o ran y tendr hwn. O ganlyniad caiff y cwmni llwyddiannus (os y berthnasol) ei gytundebu ar y sail y bydd S4C yn berchen ar yr holl hawlfraint a hawliau eraill mewn unrhyw ddeunydd a ddatblygir neu a gynhyrchir o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys pob cod tarddiad a meddalwedd cyfrifiadurol yn ogystal ag unrhyw ddeunyddiau gweledol, traciau sain a deunydd hawlfraint eraill.Yn y sefyllfa na fydd hyn yn bosib oherwydd bod rhai deunyddiau wedi'i drwyddedu i'r cwmni llwyddianus gan ddeilwyr hawlfriant trydydd parti, yna dylai'r ffaith gael ei ddatgan (gyda manylion llawn) yn y cais.

Mae S4C yn bwriadu cyhoeddi cytundeb drafft ar y Wefan Cynhyrchu ar y **25ain o Orffennaf 2008.** Os bydd gwefan yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwasanaeth, bydd gofyn i'r ymgeisydd buddugol arwyddo cytundeb comisiynu gwefan a chytundeb lefel gwasanaeth mewn ffurf safonol S4C sydd i'w weld ar http://www.s4c.co.uk/production/downloads/c_cynllun_gwefan_s4c.doc

Bydd S4C yn gwarantu trwydded anecsgliwsif i'r cwmni llwyddiannus i ddefnyddio brand S4C ac unrhyw frand newydd a gaiff ei ddyfeisio ar gyfer y ddarpariaeth. Bydd y fath drwydded yn ddiddymadwy i'w chaniatáu i ddibenion y ddarpariaeth a fwriedir gan y gwahoddiad i dendro hwn ac unrhyw gytundeb pellach gyda'r cwmni llwyddiannus. Bydd S4C yn rheoli a chymeradwyo pob defnydd o'r brand.

Bydd yn rhaid i'r cwmni llwyddiannus gydymffurfio â'r canlynol (ymysg eraill):

- Cod Darlledu Ofcom;
- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch;
- Canllawiau Cynhyrchu Gwefannau S4C;
- Cynllun Iaith S4C;
- Gofynion Technegol S4C;
- Canllawiau a safonau meddalwedd dwyieithog
- http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/3962.pdf
- Cymwysterau Cymraeg i oedolion http://www.cbac.co.uk/index.php?subject=116&level=15&imageField2.x=42&imageField2.y=6
- Canllawiau yn ymwneud a chystadlaethau http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/canllawiau_cystadlaethau.pdf

Mae mwyafrif y canllawiau wedi eu cynnwys ar Safle Cynhyrchu S4C.

Dylai unrhyw sylwadau ar y cytundeb drafft (ac os yn berthnasol i'r cytundeb gwefan safonol a'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyfeiriwyd ato yn flaenorol) gael eu cynnwys

yn eich cais. Fel arall, cymerir yn ganiataol eich bod yn derbyn telerau ac amodau'r dogfennau yma.
Nid yw hysbysiad o sylwadau yn golygu o reidrwydd bod S4C yn eu derbyn. Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi unwaith bydd manylion y cais llwyddiannus yn hysbys. Os, yn dilyn gwobrwyo'r tendr, na fydd trafodaethau ariannol neu gytundebol yn datblygu'n foddhaol cedwir yr hawl gan S4C i gynnig y tendr i ymgeisydd arall neu ail dendro'r gwasanaeth.

Dim Ymrwymiad i Ddyfarnu'r Cytundeb
Ni fydd dim a ymgorfforir yn y gwahoddiad i dendr hwn nac unrhyw gyfathrebu rhwng S4C ac ymgeisydd yn golygu bod cytundeb mewn grym ar gyfer darparu unrhyw wasanaeth sy'n cael ei gynnwys o fewn y broses dendro hon nac yn warant na chynrychiolaeth y bydd unrhyw gytundeb yn cael neu'n debygol o gael ei ddyfarnu.

Ceidw S4C yr hawl:

1. i dynnu'n ôl o'r broses dendro hon a/neu i roi'r gorau iddi a/neu ohirio'r broses dendro ar unrhyw adeg;
2. i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro;
3. i ychwanegu at y telerau ac amodau yn y GID hwn, eu diwygio a/neu i ymhelaethu arnynt;
4. i ofyn i ymgeiswyr egluro eu cynigion tendro a/neu gyflwyno gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hwy; a hefyd

Gall unrhyw ychwanegiadau, diwygiadau a/neu ymhelaethu ar y telerau ac amodau yn y gwahoddiad i dendr hwn gael eu gwneud ar gael i ymgeiswyr drwy wefan S4C (www.s4c.co.uk <http://www.s4c.co.uk>) drwy glicio ar Tendrau a dilyn y ddolen. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr fydd sicrhau eu bod yn chwilio'n rheolaidd ar y ddolen hon am ychwanegiadau, diwygiadau a/neu eglurhad pellach.

Lle mae S4C yn gwneud newidiadau i'r dogfennau tendro yna, er mwyn caniatáu i ddiwygiad o'r fath gael ei ystyried, gall S4C, yn ôl ei ddisgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir ym mharagraff 6 y gwahoddiad i dendr.

Ni ddylid rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i'r broses dendro hon nac i ddyfarnu unrhyw gytundeb heb dderbyn caniatâd penodol S4C ymlaen llaw..

Ymwrthodiad
Nid yw S4C yn rhoi unrhyw warant nac addewid fod unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y gwahoddiad i dendr hwn yn gyflawn nac yn gywir a bydd pob ymgeisydd yn dibynnu ar y fath wybodaeth ar ei risg ei hun.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth
Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('DRhG') yn weithredol i S4C. Os yw unrhyw gwmni yn ystyried fod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn naill ai o natur sensitif yn fasnachol neu yn gyfrinachol, dylai'r cwmni nodi hynny yn benodol, gan roi ei resymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif yn ei gais. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu os ydynt am ryddhau'r wybodaeth mewn ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.Nodwch fodd bynnag, fod cydnabod fod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol ddim yn gwarantu y bydd yn cael ei ddiogelu rhag ei ddatgelu.Mae S4C yn cadw'r disgresiwn i benderfynnu os yw unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei warchod rhag ei ddatgelu.

Gwarchod Data
Mae ymgeiswyr yn awdurdodi S4C i brosesi bob gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'u cais ac yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau caniatâd pob trydydd parti i alluogi S4C i wneud hynny.

Cyfrinachedd
Trwy gyflwyno tendr, mae cwmnïau yn cytuno cadw unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu y bydd S4C yn ei darparu iddynt mewn unrhyw gyfrwng yn ystod y broses dendro hon neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, yn gyfrinachol.

Costau'r Tendr
Ni fydd S4C yn atebol dros unrhyw gostau sy'n codi wrth baratoi neu gyflwyno'r tendrau neu ar gyfer y rhai sy'n codi o unrhyw ymweliadau neu gyflwyniadau y bydd S4C yn gofyn amdanynt.

Goblygiadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeraethau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE")
Mae gwasanaeth o'r math a ystyrir dan y gwahoddiad i dendr yma yn cael ei gyflenwi i S4C gan ddarparwr gwasanaeth trydydd parti. Lle bo gweithgaredd busnes yn cael ei ail-dendro, gall newid darparwr olygu "trosglwyddo ymgymeraeth" neu "newid mewn darparu gwasanaeth" at ddibenion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeraethau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. Yn fras, mae TUPE yn pennu lle bo "trosglwyddiad o ymgymeraeth" a/neu "newid mewn darparu gwasanaeth", bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymryd drosodd unrhyw atebolrwydd a chyfrifoldebau cyflogaeth o dan gytundebau cyflogaeth y rhai sy'n gyflogedig gan ddarparwr cyfredol y gwasanaeth sydd wedi eu neilltuo yn benodol i weithio ar gytundeb S4C. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnig yr un telerau ac amodau cyflogaeth â'r darparwr blaenorol a pharhad eu cyflogaeth gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Nid yw S4C yn rhagweld y bydd unrhyw rai o gyflogai S4C ei hunan yn destun unrhyw drosglwyddiad TUPE. Mae'r cwestiwn a yw TUPE yn weithredol ai peidio wastad yn fater cymhleth cyfreithiol a bydd rhaid i'r ymgeisydd ei ystyried a cheisio ei gyngor ei hunan ar y cwestiwn a yw TUPE yn weithredol ai peidio. Gan nad yw S4C yn rhan o unrhyw Drosglwyddiad TUPE, bydd hyn yn fater i'w ddatrys rhwng y darparwr blaenorol a'r ymgeisydd llwyddiannus

Deddf Rheolaeth
Llywodraethir y gwahoddiad i dendr hwn yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr a bydd pob ymgeisydd, drwy gyflwyno cynnig tendro, yn cytuno i ufuddhau i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr.